

Cofnodion Is Bwyllgor Cyllid - Cyngor Cymuned Pentir

Nos fercher Ebrill 26^{ain} 2017 yn Swyddfa Parc Menai am 7pm

Presennol: Y Cyng. D Jones Morris, B Jones J Pierce, L James, a D Jones.

E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau: Neb

Cod Ymddygiad Dim i'w nodi

Cofnodion Mis Mawrth Derbyniwyd y Cofnodion fel cofnod cywir.

Materion yn codi o'r cofnodion Dim

Ymholiadau BDO

Y Cwmni wedi holi am ein rhestr asedau.

Aethpwyd drwy y rhestr asedau oedd wedi ei darparu Ionawr 2015

Clerc i ddarparu rhestr asedau ar gyfer 2015-16 ag 2016 – 17 ai anfon at BDO gydag esboniad fod costau y gosod o bosib wedi cyfrannu tuag at y naid mewn gwerth yn hytrach na gwerth yr ased ei hun

Adroddiad Ariannol

Darparwyd mantolen oedd yn dangos incwm a gwariant ers Is Bwyllgor Cyllid Mawrth

Cyflwynwyd mantolen i gyd fynd a'r talebau oedd wedi eu ffeilio gyda chymorth gan y Cyng J Pierce yn amlinnellu gwariant i 31^{ain} o Fawrth 2017

Cadarnhawyd fod £6,526.96 yn y cyfrif

'Roedd mantolen yn dangos holl wariant 2016-17 yn ogystal a mantolen yn dangos gwariant dan wahanol benawdau wedi eu darparu

Ceisiadau Nawdd: Adran 137

Nid oedd unrhyw gais o'r newydd ond esbonwyd fod siec am £500 oedd wedi ei chyflwyno i glwb Y Garnedd Penrhos wedi ei anfon ganddynt i gyfeiriad anghywir, ag felly heb ei chyflwyno i'r banc Cytunwyd ail-anfon siec a chanslo y gyntaf.

Gan fod cynsail (Gwynjim) wedi ei osod wrth dderbyn y gost o £10.00 am ganslo hefo'r banc byddai rhaid derbyn y gost honno eto.

Derbyniodd y Clerc sieciau ar gyfer talu

101138 ail gyflwyno i Contact the Elderly

101139 Grwp Cylch merched glasinfryn

101140 D Wyn Lewis

101141 M Williams am Ganolfan glasinfryn

101142 HMRC treth Incwm Ebrill

101143 E Jones Cyflog Ebrill

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod daeth y cyfarfod i ben am 8.30